**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 582 (Cy.54)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1(1) a 5(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freinir bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Atafaelu enillion: swm i'w ddidynnu

**2.**—(1) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**3**) rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys o ran gorchymyn atafaelu enillion a wnaed cyn 1 Ebrill 2007.

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau o dan baragraffau 1(1) a 5(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 1992/613.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
27 Chwefror 2007 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38

YR ATODLEN Rheoliad 2

"SCHEDULE 4 Regulation 38

DEDUCTIONS TO BE MADE UNDER ATTACHMENT OF EARNINGS ORDER

**TABLE A**

**DEDUCTIONS FROM WEEKLY EARNINGS**

| *(1)* *Net earnings* | *(2)* *Deduction rate(percentage)* |
|---|---|
| Not exceeding £75 | 0 |
| Exceeding £75 but not exceeding £135 | 3 |
| Exceeding £135 but not exceeding £185 | 5 |
| Exceeding £185 but not exceeding £225 | 7 |
| Exceeding £225 but not exceeding £355 | 12 |
| Exceeding £355 but not exceeding £505 | 17 |
| Exceeding £505 | 17 in respect of the first £505 and 50 in respect of the remainder |

**TABLE B**

**DEDUCTIONS FROM MONTHLY EARNINGS**

| *(1)* *Net earnings* | *(2)* *Deduction rate(percentage)* |
|---|---|
| Not exceeding £300 | 0 |
| Exceeding £300 but not exceeding £550 | 3 |
| Exceeding £550 but not exceeding £740 | 5 |
| Exceeding £740 but not exceeding £900 | 7 |
| Exceeding £900 but not exceeding £1,420 | 12 |
| Exceeding £1,420 but not exceeding £2,020 | 17 |
| Exceeding £2,020 | 17 in respect of the first £2,020 and 50 in respect of the remainder |

**TABLE C**

**DEDUCTIONS BASED ON DAILY EARNINGS**

| *(1)* *Net earnings* | *(2)* *Deduction rate(percentage)* |
|---|---|
| Not exceeding £11 | 0 |
| Exceeding £11 but not exceeding £20 | 3 |

| *(1)* *Net earnings* | *(2)* *Deduction rate(percentage)* |
|---|---|
| Exceeding £20 but not exceeding £27 | 5 |
| Exceeding £27 but not exceeding £33 | 7 |
| Exceeding £33 but not exceeding £52 | 12 |
| Exceeding £52 but not exceeding £72 | 17 |
| Exceeding £72 | 17 in respect of the first £72 and 50 in respect of the remainder" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno tablau diwygiedig o ddidyniadau o enillion wythnosol, misol a dyddiol ynghylch gorchmynion atafaelu enillion a gaiff eu gwneud yn unol â Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992.

Paratowyd arfarniad rheoliadol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, ac mae ar gael o Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Yr Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (ffôn 02920825111).